**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

# Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 3YDD MAWRTH, 2022**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 23 Chwefror 2022)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

**www.gwynedd.llyw.cymru**


**DYDD MERCHER, 23 CHWEFROR 2022**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 3 MAWRTH 2022**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 3YDD MAWRTH, 2022** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2021 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL Y CYNGOR 2022/23** 21 - 30

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

**8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD - 2018-23 - ADOLYGIAD 2022/23** 31 - 193

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

**9. CYLLIDEB 2022/23** 194 - 269

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**10. STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)** 270 - 309

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**11. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022** 310 - 755

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant.

**12. ADRODDIAD ADOLYGU - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD** 756 - 906

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd.

**13. ARGYMHELLIAD PANEL CYFWELD - PENODI AELODAU LLEYG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** 907 - 910

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel Cyfweld.

**14. AIL-BENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU** 911

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**15. CALENDR PWYLLGORAU 2022/23** 912 - 914

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JUDITH HUMPHREYS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Judith Humphreys yn cynnig fel a ganlyn:-

"Fod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru, Llywodraeth San Steffan a'r sefydliadau perthnasol i ymrwymo i:

- broffesiynoli chwaraeon merched fel bod merched yn cael yr un cyfleoedd â thâl â dynion.
- sicrhau bod merched yn cael eu cynrychioli ar fyrddau chwaraeon ar bob lefel.
- sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer chwaraeon merched yn arbennig o ran pêl droed a rygbi.
-bod chwaraeon merched yn cael sylw cyfartal â dynion ar y cyfryngau ac yn y Wasg."

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Beca Brown yn cynnig fel a ganlyn:-

"Gyda chostau byw yn cynyddu'n frawychus o gyflym a phobol a theuluoedd yn gorfod dewis yn aml rhwng bwyd neu wres, mae galw mwy nag erioed am wasanaethau banciau a chynlluniau bwyd lleol.

Yn ôl FareShare Cymru roedd 4 cynllun bwyd yng ngogledd cymru cyn y pandemig ond mae disgwyl y bydd oddeutu 40 erbyn mis Ebrill eleni.

Mae’n rhaid i grwpiau gwirfoddol lleol dalu tâl aelodaeth flynyddol i dderbyn bwyd gan gynlluniau fel FareShare ac yn ystod y cyfnod clo roedd Llywodraeth Cymru yn ariannu aelodaeth y flwyddyn gyntaf yn unig.

Ond, ar ôl y flwyddyn gyntaf mae cynlluniau bwyd lleol yn gorfod canfod yr arian ar gyfer y tâl aelodaeth eu hunain a gall y gost yma fod o gwmpas £3,000 y flwyddyn.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ariannu 70% o gost y bwyd (hynny yw, tâl aelodaeth FareShare neu gynlluniau dosbarthu tebyg) am gyfnod o 5 mlynedd er mwyn gwarchod y cynlluniau bwyd lleol yma sydd yn rhoi gwasanaeth allweddol i bobol a theuluoedd mewn cyfnod o galedi mawr.”

**17. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 915 - 918

(i) Cyflwyno, er gwybodaeth – Llythyr gan Lywodraeth San Steffan mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elwyn Edwards i gyfarfod 7 Hydref, 2021 o’r Cyngor ynglŷn â chydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn ffurfiol fel gŵyl banc yng Nghymru.

(ii) Cyflwyno, er gwybodaeth – Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gethin Glyn Williams i gyfarfod 2 Rhagfyr, 2021 o’r Cyngor ynglŷn â chreu coetiroedd yng Nghymru.